Cadw'r gyfraith o ran Eiddo Deallusol (ED)

CYNGOR I FARCHNADOEDD

Gan Gavin Terry,
Y Sefydliad Safonau Masnach,
Cyd-swyddfa Arwain o ran ED

Mae eiddo deallusol yn cynnwys nodau masnach, hawlfraint, dyluniadau a phatentau, a ddiogelir gan y gyfraith fel eiddo'u perchenogion. Gall stondinwyr a phobl sy'n rhedeg marchnadoedd gael eu cosbi'n llym os byddan nhw'n gwerthu nwyddau ffug neu nwyddau didrwydded. Gall yr wybodaeth ganlynol eich helpu chi gadw'r gyfraith. Nid oes bwriad iddo fod yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y gyfraith, ac fel ym mhob achos arall dylech gael cyngor cyfreithiol penodol lle bo angen. Bydd eich swyddfa safonau masnach yn barod iawn i'ch helpu yn ddi-dâl. Ewch i *www.tsi.org.uk* i weld lle mae'ch swyddfa safonau masnach agosaf.

Dyma rai camau syml fydd yn eich helpu chi gadw'r gyfraith

Dysgwch am y Gyfraith

Os ydych chi'n ymwneud ag unrhyw agwedd ar werthu nwyddau sydd â nod masnach, brandiau cynllunwyr neu ddeunyddiau sydd â hawlfraint (fel cerddoriaeth, ffilmiau, gemau a meddalwedd cyfrifiaduron) dylai fod gennych wybodaeth sylfaenol am y gyfraith ar nodau masnach a hawlfraint cyn i chi ddechrau gwerthu neu adael i nwyddau gael eu gwerthu gan eraill. Bydd y crynodeb dros y dudalen yn help i chi. Does dim rhaid i chi fod yn arbenigwr ar y gyfraith, ond bydd yn help i chi wybod beth yw beth a pha gosb allech chi ei chael os byddwch yn torri'r gyfraith.

Gochelwch rhag y 'Dyn â Fan'

Fel stondinwr, dylech gadarnhau fod eich stoc yn cael ei ddarparu gan gyflenwyr cyfreithiol. Dylech wybod pwy yw'r person y cawsoch y stoc ganddo - fydd pethau ddim yn edrych yn dda os bydd rhywun yn amau bod eich stoc yn anghyfreithlon a chithau'n dweud eich bod chi wedi'i gael gan 'ddyn â fan'. Dylai pobl sy'n rhedeg marchnad gofnodi enwau pob stondinwr gan gynnwys stondinwyr achlysurol, a nodi cofrestrif eu cerbydau.

Cadwch Drywydd Papur

Dylai stondinwyr wneud yn siŵr eu bod yn cadw pob derbynneb ac anfoneb am yr holl stoc y maent yn eu gwerthu. Mae nwyddau go-iawn yn annhebygol o gael eu cyflenwi am arian parod yn unig.

WNAIFF ANWYBODAETH MO'CH AMDDIFFYN

Mae rhai nwyddau ffug yn gopïau arbennig o dda, a gall fod yn anodd gwybod a ydyn nhw'n nwyddau dilys neu ddim. Ond cofiwch mai chi sy'n gyfrifol am gymryd camau rhesymol i sicrhau fod yr eitemau yr ydych yn eu gwerthu, neu sy'n cael eu gwerthu yn eich marchnad, yn bethau dilys.

Cofiwch y 4 Rheol Aur

- ***Lle*** – Mae rhai eitemau, er enghraifft nwyddau drudfawr a moethus, yn annhebygol o fod yn gyfreithlon ar stondinau marchnad. Mewn siopau arbennig, cymeradwy yn unig maen nhw ar gael fel rheol. Os cewch gynnig pethau fel hyn i'w gwerthu ar eich stondin – neu'n eu gweld yn cael eu gwerthu mewn marchnad neu sêl cist car – dylech fod yn amheus iawn.
- ***Pris*** – Os yw pris y nwyddau yn rhy dda, gallai'r nwyddau fod yn rhai ffug.
- ***Pacio*** – Os gwelwch amryw o frandiau gwahanol yn cael eu cynnig yn yr un deunydd pacio – ee papur lapio plastig cyffredin – dylech eu hamau'n syth. Hefyd, chwiliwch am wallau sillafu ar y deunydd pacio.
- ***Cynnyrch*** – Os yw ansawdd y cynnyrch yn amheus, dylech fod yn ofalus iawn. Yn yr un modd os gwelwch gyflenwad o eitemau cyffredin am bris isel, fel crysau-t plaen wedi'u printio â logos gwahanol frandiau, maen nhw'n debygol o fod yn gopïau rhad sydd wedi'u creu mewn ffatri anghyfreithlon.

Os nad ydych yn siŵr . . .

Os ydych yn amau fod y cynnyrch yn ffug, dylech eu symud o'r stondin a/neu sôn am y mater wrth safonau masnach. Byddan nhw'n gallu cysylltu â pherchennog y brand neu'r hawlfraint i gadarnhau a yw'r nwyddau'n rhai gwir neu'n rhai ffug ac a yw'r cyfanwerthwr sy'n eu cyflenwi'n gyfreithlon.

GWIR GYNNYRCH
Cydweithio yn erbyn nwyddau ffug

Cyhoeddwyd gan ymgyrch y ***Gwir Gynnyrch*** dros farchnadoedd dilys.

www.realdealmarkets.co.uk

Y Gyfraith

- **Deddf Nodau Masnach 1994** – Os byddwch chi'n gwerthu, yn cynnig gwerthu neu'n meddu ar unrhyw nwyddau ffug byddwch yn torri'r gyfraith os rhoddwyd nodau masnach cofrestredig ar yr eitemau hyn heb ganiatâd perchennog cyfreithlon y nod masnach. Rhaid i chi gadarnhau nad yw'r nwyddau a werthwch yn rhai ffug. Pe byddech yn torri'r Ddeddf hon gallech gael dirwy ddiderfyn a hyd at ddeng mlynedd o garchar. Ewch i *www.ipo.gov.uk* i weld a yw'r nod masnach wedi'i gofrestru.
- **Deddf Hawlfreintiau, Dyluniadau a Phatentau 1988** – Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i ymwneud â phethau sydd wedi'u copïo heb ganiatâd perchennog yr hawlfraint. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn drosedd i recordio cerddoriaeth yn anghyfreithlon. Gallai torri'r Ddeddf hon arwain at ddirwy ddiderfyn a hyd at ddeng mlynedd o garchar.
- **Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr Rhag Fasnachu Annheg 2008** – Mae'r rheoliadau hyn yn gwahardd masnachwyr rhag defnyddio arferion annheg i annog defnyddwyr i brynu, fel defnyddio arferion busnes camarweiniol neu annheg, gadael gwybodaeth bwysig allan a gwerthu mewn ffordd ymosodol. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys gwaharddiad cyffredinol ar ymddygiad sy'n is na'r safon a ddisgwylir gan gwsmer cyffredin. Gallai gwerthu nwyddau ffug neu gynnyrch didrwydded arwain at erlyniad o dan y Rheoliadau hyn, a gallai hynny olygu dirwy a/neu garchar.
- **Rheoliadau Diogelwch Cynnyrch** Anaml iawn y caiff nwyddau ffug eu profi i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch ac felly gallent fod yn beryglus iawn. Gallai unrhyw un sy'n gwerthu nwyddau anniogel fod yn torri Rheoliadau Diogelwch Cynnyrch Cyffredinol 2005; Rheoliadau Teganau (Diogelwch) 1995; Rheoliadau Cynnyrch Cosmetig (Diogelwch) 2008; Rheoliadau Dillad Nos (Diogelwch) 1985; Rheoliadau Dodrefn a Deunyddiau Dodrefnu (Tân) (Diogelwch) 1988. Gallai torri'r rheoliadau hyn arwain ar ddirwyon sylweddol a charchar.
- **Deddf Recordiadau Fideo 19**84 - Rhaid i dapiau fideo neu DVD yr ydych yn eu gwerthu neu'n cynnig eu gwerthu fod wedi'u dosbarthu a'u labelu â'r nod dosbarthu priodol, oni bai eu bod wedi'u heithrio. Gallai gwerthu ffilmiau di-ddosbarth, neu ffilmiau ag arnynt nod dosbarthu ffug olygu dirwy o hyd at £20,000.

- **Deddf Menter 2002** – Diben y Ddeddf yw mynd i'r afael â'r masnachwyr hynny sy'n torri'r deddfau diogelu defnyddwyr. O dan y Ddeddf Menter gall safonau masnach wneud cais i'r llys sirol am orchymyn gorfodi. Golyga hyn y bydd y llys yn gorchymyn person i beidio ag ymddwyn mewn modd sy'n niweidio defnyddwyr. Rhai enghreifftiau o achosion lle gellir gweithredu o dan y Ddeddf Menter yw pan fo rhywun yn gwerthu nwyddau ffug neu nwyddau â chamddisgrifiad neu nwyddau wedi torri. Os caiff y gorchymyn llys ei dorri, bydd y person sydd wedi torri'r gorchymyn yn euog o ddirmygu llys a gall gael dirwy a/neu hyd at ddwy flynedd o garchar.
- **Helpu ac Annog** – Mae'n bosibl y bydd unrhyw stondinwr neu weithredwr marchnad sy'n gwybod bod nwyddau ffug yn cael eu gwerthu mewn marchnad neu sêl cist car fod yn euog o helpu ac annog y stondinwr i werthu'r nwyddau ffug hynny a gallai gael ei gosbi ynghyd â'r person sy'n gwerthu'r nwyddau.
- **Deddf Elw Troseddau 2002** – O dan y Ddeddf hon gall llysoedd hawlio'n ôl unrhyw elw a gafwyd o droseddau. Os ydych yn ymwneud â gwerthu neu gyflenwi nwyddau ffug neu nwyddau sy'n torri'r rheolau hawlfraint, mae'n bosibl y gallech golli eich eiddo. Gall y llysoedd orchymyn i'ch arian, eich cynilion, eich cerbydau a'ch tŷ gael eu cymryd oddi wrthych.
- **Gwyngalchu Arian** – Gall y drosedd o wyngalchu arian gynnwys derbyn arian yn dâl am nwyddau ffug a gall hefyd gynnwys derbyn rhywfaint o'r elw o werthu nwyddau ffug yn dâl am rentu stondin mewn marchnad neu sêl cist car. Dylid anfon unrhyw un sy'n gwerthu nwyddau ffug ymaith o'r farchnad ac ni ddylid derbyn rhent na thâl ganddynt er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o droseddu.

Lluniwyd y daflen hon gan ymgyrch ***Gwir Gynnyrch***, menter bartneriaeth traws-sector sy'n uno ac yn cefnogi safonau masnach awdurdodau lleol, gweithredwyr marchnadoedd a stondinwyr yn y frwydr i gadw nwyddau ffug allan o farchnadoedd a sêls cist car yn y DU.

NATIONAL MARKETS GROUP for IP Protection

www.realdealmarkets.co.uk

GWIR GYNNYRCH
Cydweithio yn erbyn nwyddau ffug